AC2009(6) Papur 2 Atodiad 2

**Sylw yn y wasg wrth weithredu argymhellion Cam 1 ar gyfer rhoi cymorth i Aelodau'r Cynulliad**

Dydd Gwener 30 Hydref

ITV Wales Tonight
BBC Wales Evening News

Dydd Sul 31 Hydref

The Politics Show
Cafodd y Llywydd ei gyfweld ynghylch gweithredu argymhellion Cam 1 ar gyfer rhoi cymorth i Aelodau'r Cynulliad.

Dydd Llun 2 Tachwedd

Good Morning Wales 07:00
Mae system dreuliau newydd i Aelodau'r Cynulliad yn dod i rym heddiw. Mae'r rheolau newydd yn cynnwys 108 o newidiadau. Ni fydd modd i'r Aelodau hawlio lwfans sylfaenol o £30 na chostau dodrefnu ail gartrefi.

Post Cyntaf 07:00
Mae system newydd ar gyfer treuliau Aelodau'r Cynulliad yn dod i rym heddiw er mwyn rhwystro Aelodau rhag hawlio'n anghyfiawn. Bydd y lwfans dyddiol am fod i ffwrdd o gartref yn dod i ben, a bydd angen derbynneb gyda phob hawliad. Mae'r cysylltiad rhwng cyflogau Aelodau Seneddol ac Aelodau'r Cynulliad wedi dod i ben.

BBC Breakfast 08:00
Wales
Bydd angen i Aelodau'r Cynulliad ddarparu derbynebau gyda'u holl hawliadau am dreuliau o heddiw ymlaen. Int. Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC, Llywydd y Cynulliad.

GMTV 08:00
Wales
Bydd angen derbynebau ar Aelodau'r Cynulliad ar gyfer eu holl hawliadau am dreuliau o heddiw ymlaen. Mae'r rheolau newydd ymhlith 108 o newidiadau sydd i'w rhoi ar waith ar ôl yr etholiad newydd yn 2011.

Daily Post (Wales) 2

**Rheolau newydd i gwtogi treuliau Aelodau'r Cynulliad. Mae newidiadau mawr i'r treuliau y gall Aelodau'r Cynulliad eu hawlio yn dod i rym heddiw. Nod y rheolau newydd yw atal hawliadau a gaiff eu hystyried gan lawer yn annerbyniol.**

Western Mail

**Mae'r rheolau newydd ymhlith argymhellion a wnaed gan Adolygiad Jones o dreuliau, a gyhoeddwyd ar ôl ymchwiliad 10 mis ac a dderbyniwyd yn llawn gan awdurdodau'r Cynulliad ym mis Gorffennaf. Dywedodd yr Arglwydd Elis-Thomas fod Comisiwn y Cynulliad, sef y grŵp trawsbleidiol sy'n rhedeg y busnes dyddiol ym Mae Caerdydd, yn awyddus i "ddangos i'r cyhoedd fod ymrwymiad i dryloywder". "Gwnaed ymrwymiad ymhell cyn i'r helynt dros dreuliau Aelodau Seneddol amlygu'i hun yn San Steffan," ychwanegodd. "Mae argymhellion y panel yn gyfle unigryw i gryfhau'r contract rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a phobl Cymru wrth i'r Cynulliad ddeddfu a chraffu ar y llywodraeth".**

South Wales Argus

**Bydd angen derbynebau ar Aelodau'r Cynulliad ar gyfer eu holl hawliadau am dreuliau o heddiw ymlaen. Byddant hefyd yn colli'r hawl i brynu dodrefn a gosodiadau i'w hail gartrefi gydag arian trethdalwyr. Mae'r rheolau newydd ymhlith argymhellion a wnaed gan Adolygiad Jones o dreuliau, a gyhoeddwyd ar ôl ymchwiliad 10 mis ac a dderbyniwyd yn llawn gan awdurdodau'r Cynulliad ym mis Gorffennaf.**

The Shropshire Star

http://www.shropshirestar.com/2009/11/02/rules-on-expenses-to-change-for-ams/

**Bydd angen derbynebau ar Aelodau'r Cynulliad ar gyfer eu holl hawliadau am dreuliau o heddiw ymlaen. Bydd Aelodau'r Cynulliad hefyd yn colli'r hawl i brynu dodrefn a gosodiadau i'w hail gartrefi gydag arian trethdalwyr. Mae'r rheolau newydd ymhlith argymhellion a wnaed gan Adolygiad Jones o dreuliau, a gyhoeddwyd ar ôl ymchwiliad 10 mis ac a dderbyniwyd yn llawn gan awdurdodau'r Cynulliad ym mis Gorffennaf.**

Wales Today

**Darn gyda'r Llywydd o Millbank yn trafod adroddiad Kelly.**

**Newyddion**
**Darn gyda'r Llywydd o Millbank yn trafod adroddiad Kelly.**

**Dydd Iau 5 Tachwedd**

**The Western Mail**
**Rhoddwyd cyfle i Aelodau Seneddol ailennill eu henw da ymhlith y cyhoedd neithiwr drwy fabwysiadu pecyn o newidiadau radical i'w treuliau. O dan y cynigion gan Syr Christopher Kelly, byddai Aelodau Seneddol wedi'u gwahardd rhag cyflogi eu gwŷr neu'u gwragedd ac ni fyddai modd iddynt hawlio taliadau mawr wrth ymddeol neu wrth golli eu seddi. Dywedodd Syr Christopher y dylai Aelodau Seneddol rentu eiddo neu aros mewn gwestai yn hytrach na hawlio llog ar forgeisi, a dylid cael gwared hefyd ar y "lwfans cyfathrebu" dadleuol £10,000 y flwyddyn. Yn ôl Syr Christopher, gyda'i gilydd, byddai'r pecyn yn cwtogi £94m ar fil treuliau Aelodau Seneddol. "Ni welaf unrhyw reswm pam na ellir rhoi'r newidiadau hyn ar waith os yw'r ewyllys a'r penderfyniad yno," meddai. "Mae'n bwysig bod modd rhoi'r ddau gam ar waith", meddai.**

**Cynghrair y Trethdalwyr**
**Ddoe, cyflwynodd y Cynulliad Cenedlaethol y rhan gyntaf o ddiwygiadau i dreuliau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad. Ar ôl rhoi tystiolaeth i adolygiad Syr Roger Jones, Yn Gywir i Gymru, roeddwn yn falch iawn o weld y 28 cam cyntaf o'r 108 yn cael eu cyflwyno, heb brotestio na dadlau. O hyn allan, bydd yn rhaid i Aelodau'r Cynulliad ddarparu derbynebau ar gyfer yr holl dreuliau a hawlir, ni fydd modd cyflogi aelodau o'r teulu, ac ni ellir gwneud mwy o hawliadau am log morgais. At hynny, os ydych yn byw o fewn pellter cymudo arferol i Gaerdydd, ni fydd lwfans ail gartref o gwbl. Yn ddiddorol, y pethau hyn oedd asgwrn y gynnen yn San Steffan. Mae'n werth nodi bod Syr Roger wedi dechrau ar ei ymchwiliad ymhell cyn i'r helynt dros dreuliau ddechrau yn San Steffan, a bu'n gwbl annibynnol a diwyro wrth wneud ei argymhellion. O edrych ar argymhellion Ymchwiliad Kelly, a'i farn heddiw fod yn rhaid i Aelodau Seneddol dderbyn ei argymhellion yn eu cyfanrwydd, mae yntau ar yr un llwybr.**

**Dydd Sadwrn 7 Tachwedd**

**Western Telegraph**
**Darn ffeithiol am y broses o weithredu Cam 1, gyda sylwadau cadarnhaol gan amryw o Aelodau'r Cynulliad, gan gynnwys –**

**Alun Davies AC – "Rwy'n credu mai dyma'n union sydd ei angen i ennyn a chryfhau ymddiriedaeth y cyhoedd yn Aelodau'r Cynulliad ac yn y Cynulliad ei hun."**

**Paul Davies AC – "Rwy'n croesawu'r system lwfansau newydd a ddaeth i rym ddydd Llun. Mae unrhyw beth sy'n helpu i adfer ffydd y cyhoedd mewn gwleidyddion i'w groesawu ac rwyf wastad wedi bod yn gwbl gefnogol i'r newidiadau a gynigiwyd gan y panel adolygu."**

**Nerys Evans AC – "Rwy'n croesawu'r newidiadau. Mae'r ddadl yng Nghymru wedi bod yn wahanol i honno yng nghyd-destun y DU, ac mae gan y Cynulliad well record o fod yn agored ac yn dryloyw. Mae'r newidiadau hyn yn gam pwysig ymlaen i osgoi rhagor o gamliwio, problemau neu gwestiynau ynghylch cyflogau a threuliau".**